# AWDURDOD PARC CENEDLAETHOL

## 29 Gorffennaf 2020

Yn Bresennol: Cynghorydd P Harries (Cadeirydd)
Cynghorydd Mrs D Clements, Cynghorydd K Doolin, Dr M Havard, Dr R Heath-Davies, Mrs S Hoss, Cynghorydd M James, Mr G Jones, Cynghorydd P Kidney, Cynghorydd PJ Morgan, Cynghorydd R Owens, Dr R Plummer, Cynghorydd M Williams a'r Cynghorydd S Yelland.

*[Ymunodd Mrs J James â'r cyfarfod yn ystod ystyried adroddiad 29/20 Cynllun Adfer yn sgîl y Coronafeirws (gweler Cofnod 7 isod)]*

(Cyfarfod Rhithiol: 10.00am – 12.20pm)

**1. Ymddiheuriadau am absenoldeb**

Derbyniwyd ymddiheuriad am absenoldeb oddi wrth y Cynghorydd P Baker, Cynghorydd M Evans a'r Cynghorydd A Wilcox.

**2. Datgan Buddiannau**

Datganodd y Cynghorydd P Harries a Dr M Havard fudd personol o ran Adroddiad 36/20 Ymddiriedolaeth Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro, a pharhau yn bresennol yn y cyfarfod.

**3. Cofnodion**

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfodydd (Cyfarfod Blynyddol Cyffredinol a'r Cyfarfod Cyffredin) a gynhaliwyd ar y 3ydd o Fehefin 2020 i'w cadarnhau a'u dilysu.

**PENDERFYNWYD** cadarnhau a dilysu cofnodion y Cyfarfod Blynyddol Cyffredinol a'r Cyfarfod Cyffredin a gynhaliwyd ar y 3ydd o Fehefin 2020.

**4. Materion yn codi**

(a) <u>Aelodaeth o Bwyllgorau a Sefydliadau Allanol (Cofnod 6 – Cyfarfod Blynyddol Cyffredinol 3 Mehefin 2020)</u>

Gofynnodd y Cadeirydd am ddiweddariad ynghylch cynrychiolaeth ar y Grŵp Ymgynghorol Parth Cadwraeth Morol Skomer, Grŵp Llywio Castell Henllys ac ar Grŵp Ymgynghorol Coetir Tŷ Canol. Dywedodd y Rheolwr Gwasanaethau Gweinyddol a Democrataidd nad oedd y Grŵp Ymgynghorol Parth Cadwraeth Morol Skomer, lle bwriedir codi'r mater o gynrychiolaeth ar y Grŵp, wedi'i gynnal eto; grŵp o swyddogion oedd Grŵp Ymgynghorol Coetir Tŷ Canol a gynrychiolir gan y Swyddog Bioamrywiaeth, ac nad oedd Grŵp Llywio Castell Henllys bellach yn bodoli. Felly nid oedd unrhyw benodiadau pellach i'w gwneud ar hyn o bryd.

**NODWYD.**

(b) Adolygiadau Datblygu Personol (Cofnod 4(b) Cyfarfod Cyffredin 3 Mehefin 2020)
Dywedodd y Rheolwr Gwasanaethau Gweinyddol a Democrataidd bod deg Aelod bellach wedi cwblhau eu Hadolygiad Datblygu Personol.

**NODWYD.**

(c) Ymateb i'r Argyfwng Newid Hinsawdd (Cofnod 8 Cyfarfod Cyffredin 3 Mehefin 2020)
Dywedodd Dr M Havard wrth yr Aelodau y gofynnwyd iddi ddweud gair wrth yr Ymgyrch dros Barciau Cenedlaethol oedd yn cynnal arolygon o bob Parc Cenedlaethol yng Nghymru a Lloegr i weld beth oedd y Parciau yn ei wneud mewn ymateb i'r Argyfwng Newid Hinsawdd. Ychwanegodd y byddai adroddiad yn cael ei baratoi yn crynhoi camau gweithredu pob Parc Cenedlaethol, ac y byddai'r adroddiad hwnnw yn cael ei ddosbarthu i bob Aelod er gwybodaeth. Dywedodd ei bod o'r farn bod yr Awdurdod wedi bod yn rhagweithiol iawn yn cynhyrchu Cynllun Gweithredu, a'i bod yn falch iawn o allu rhannu gydag eraill y gwaith oedd ar y gweill.

**NODWYD.**

(d) Pwyllgor Ieuenctid Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro (Cofnod 11 Cyfarfod Cyffredin 3 Mehefin 2020)
Dywedodd y Cadeirydd bod y gwaith yn dal i fynd rhagddo i ddiwygio Cylch Gwaith y Pwyllgor. Fodd bynnag, roedd y Pwyllgor wedi gofyn am un o gynrychiolwyr yr Awdurdod ar y Pwyllgor i'w enwi fel yr Aelod pleidleisio.

**PENDERFYNWYD** enwi Mrs S Hoss yn Aelod pleidleisio ar Bwyllgor Ieuenctid Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro.

**5. Cyhoeddiadau'r Cadeirydd**
Dywedodd y Cadeirydd nad oedd wedi mynychu unrhyw ddigwyddiadau ers y cyfarfod diwethaf o'r Awdurdod oherwydd cyfyngiadau'r cyfnod clo. Serch hynny dywedodd ei fod wedi bod yn rhan o ddau gyfarfod rhithiol o Fforwm Gwledig Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a dau gyfarfod rhithiol o Grŵp Adfer Cyngor Partneriaeth Cymru ar ran Parciau Cenedlaethol Cymru. Hefyd roedd Cadeiryddion a Phrif Weithredwyr Parciau Cenedlaethol Cymru wedi cyfarfod yn rhithiol â'r Dirprwy Weinidog Tai a Llywodraeth Leol. Hefyd roedd wedi mynychu cyfarfodydd rhithiol o'r Pwyllgor Ieuenctid a hefyd ymweliad safle ymbellhau cymdeithasol ym Maes Parcio San Ffraid gyda'r Cynghorydd Owens i drafod y problemau a wynebir yno.

Diweddodd drwy ddiolch i'r Aelodau ac i'r staff am eu cefnogaeth barhaus yn yr amgylchiadau anodd sydd ohoni, gan obeithio bod eu teuluoedd a'u cyfeillion yn parhau yn ddiogel.

**NODWYD.**

**6. Adroddiadau cyfarfodydd amrywiol Bwyllgorau'r Awdurdod**

Cyflwynwyd yr adroddiadau canlynol o gyfarfodydd nifer o Bwyllgorau'r Awdurdod i'r Aelodau i'w hystyried/er gwybodaeth:

(i) Pwyllgorau Rheoli Datblygu a gynhaliwyd ar 29 Ionawr 2020, 10 Chwefror 2020, 3 Mehefin 2020, 10 Mehefin 2020 ac 1 Gorffennaf 2020;
(ii) Pwyllgor Archwilio ac Adolygu Gwasanaethau Corfforaethol a gynhaliwyd ar 13 Mai 2020;
(iii) Pwyllgor Cronfa Datblygu Cynaliadwy a gynhaliwyd ar 20 Mai 2020; a'r
(iv) Pwyllgor Adolygu Gweithredol a gynhaliwyd ar 17 Mehefin 2020.

**PENDERFYNWYD** mabwysiadu/derbyn cofnodion y Pwyllgorau a enwir uchod.

**7. Cynllun Adfer yn sgîl y Coronafeirws (COVID-19)**

Dywedwyd bod yr Awdurdod, mewn ymateb i'r llacio ar y cyfyngiadau presennol oherwydd y Pandemig gan Lywodraeth Cymru, wedi drafftio Cynllun Adfer yn sgîl y Coronafeirws (COVID-19). Roedd y Cynllun mewn dwy ran: roedd Rhan A yn cynnwys yr egwyddorion allweddol a'r ffactorau pwysig i'w hystyried er mwyn i'r staff barhau i ganolbwyntio ar ddiogelu iechyd a lles eu hunain, y cwsmeriaid a'r gymuned ehangach; ac roedd Rhan B yn cynnwys nifer o gynlluniau manwl 'fesul adran' ar draws yr Awdurdod.

Rhannwyd Rhan A gyda'r Aelodau er mwyn rhoi trosolwg iddynt o'r egwyddorion arweiniol sy'n cael eu mabwysiadu ar gyfer Adfer. Hefyd mae Rhan A yn fframwaith ar gyfer cynlluniau manwl ar lefel weithredol ac ar lefel adrannol yn ogystal ag Asesiadau Risg sy'n seiliedig ar dasgau.

Ymgynghorwyd yn helaeth â'r staff a'r Undebau ar y Cynllun, ac roeddent wedi rhoi cryn adborth. Cyflwynwyd y Cynllun gerbron yr Aelodau yn awr i'w ystyried.

Cymeradwyodd yr Aelodau y Rheolwr Adnoddau Dynol (AD) am gyflwyno Cynllun clir a chynhwysfawr oedd yn rhoi tawelwch meddwl iddynt ynglŷn â'r camau a gymerir. Hefyd diolchwyd i'r Prif Weithredwr am y cymorth a roddwyd ganddo drwy gyfathrebu â'r staff a'r Aelodau dros y misoedd diwethaf hyn. Nodwyd bod cryn straen a phryder ymhlith y cyhoedd yn

gyffredinol ynghylch codi'r mesurau clo, ac roedd un Aelod yn meddwl tybed a oedd gan y staff bryderon tebyg ynghylch dychwelyd i'r gwaith, a sut fyddai hyn yn cael ei reoli. Atebodd y Rheolwr AD drwy ddweud bod y rheolwyr llinell wedi gwneud gwaith clodwiw yn ystod cyfnod anodd, yn cadw mewn cysylltiad â'r staff yn wythnosol. Roedd y mwyafrif o'r staff bellach wedi dychwelyd i'r gwaith, ond byddai'r mwyafrif o'r staff swyddfa yn parhau i weithio gartref unwaith y bydd swyddfa Llanion yn ail-agor ar 1 Medi. Byddai'r lefelau presenoldeb yn cael eu penderfynu a chyfarwyddyd yn cael ei roi i'r rhai fydd yn dychwelyd i'r gweithle; hefyd roedd Asesiadau Risg trylwyr wedi'u gwneud i warchod iechyd a diogelwch. Byddai'r rheolwyr yn parhau i siarad â'r staff yn gyson fel y gellid mynd i'r afael ag unrhyw bryderon.

**NODWYD.**

**8. Ymestyn y Newidiadau Dros-dro i Gynllun yr Awdurdod ar Ddirprwyo yng ngoleuni Effaith Covid-19,**

Atgoffwyd yr Aelodau mai yn y cyfarfod o'r Awdurdod Parc Cenedlaethol ar 6 Mai 2020 bod newidiadau dros-dro wedi'u gwneud i gynllun yr Awdurdod o ddirprwyo er mwyn galluogi'r gwasanaeth cynllunio i barhau â'i waith yn ystod cyfnod y COVID-19. Nodwyd bod prosesu ceisiadau cynllunio wedi'i effeithio'n ddifrifol oherwydd y cyfyngiadau ar y staff i ymgynghori'n briodol â chymdogion ac i wneud ymweliadau safle. Fodd bynnag roedd y camau hyn bellach wedi ail-gychwyn. Gofynnwyd felly am ymestyn y newidiadau hyn tan yr 2$^{ail}$ o Ragfyr 2020 er mwyn sicrhau bod nifer digonol o geisiadau i'w hystyried yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Rheoli Datblygu.

Gofynnodd yr Aelodau am farn y ddau swyddog a Chadeirydd/Dirprwy Gadeirydd y Pwyllgor Rheoli Datblygu ynglŷn â gweithredu'r newidiadau. Roedd y swyddogion yn hapus â'r trefniadau gan ychwanegu bod yr ymgeiswyr hefyd yn fodlon gan eu bod yn derbyn penderfyniad yn brydlon. Hefyd roedd y Cadeirydd a'r Dirprwy Gadeirydd o'r farn bod y trefniadau wedi gweithio'n dda gan dalu teyrnged i waith y Cyfarwyddwr a'r Tîm Rheoli Datblygu ac i'r modd yr oeddent wedi cyflawni eu dyletswyddau.

Holwyd ynghylch ymatebion y Cynghorau Tref a Chymuned gan nad oedd nifer ohonynt yn cyfarfod, ac atebodd y Cyfarwyddwr y gwneir ymdrechion ychwanegol i gael eu hymatebion.

**PENDERFYNWYD** ymestyn cyfnod y newidiadau dros-dro i'r cynllun dirprwyo tan 2 Rhagfyr 2020.

**9. Parciau Cenedlaethol Cymru: "Tirweddau i Bawb" ein hagwedd at Gynhwysiant Cymdeithasol a Thlodi Plant**

Dywedwyd bod Parciau Cenedlaethol Cymru yn ceisio cysylltu pobl â threftadaeth naturiol a diwylliannol y Parciau Cenedlaethol, a thrwy ymgysylltu rhagweithiol, hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol, mynd i'r afael â thlodi plant, a lleihau effeithiau negyddol tlodi. Roedd y datganiad sefyllfa a'r camau blaenoriaeth yn clustnodi sut fyddai Parciau Cenedlaethol Cymru yn cyflawni eu dibenion a'u dyletswyddau craidd tra'n bodloni blaenoriaethau Llywodraeth Cymru yn y maes hwn o waith.

Nodwyd yn y cyfarfod bod Llywodraeth Cymru yn ddiweddar wedi cadarnhau y byddai'r ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol yn dod i rym ar 31 Mawrth 2021. Dyletswydd yw hon lle byddai'n rhaid i gyrff cyhoeddus penodol, wrth wneud penderfyniadau strategol megis penderfynu ar flaenoriaethau a phennu amcanion, ystyried sut allai eu penderfyniadau helpu i leihau'r anghydraddoldeb sy'n gysylltiedig ag anfantais economaidd-gymdeithasol. Dywedodd y swyddogion felly y byddai angen adolygu'r ddogfen bryd hynny i weld sut ellid fwrw ymlaen â'r ddyletswydd.

Dywedodd yr Aelodau eu bod wedi darllen y ddogfen gyda diddordeb ac wedi nodi ei bod wedi amlygu nifer o feysydd o anghydraddoldeb, yn enwedig o ran mynediad i dai fforddiadwy. Gofynnwyd a fyddai cynllun gweithredu ar gael neu rhyw fodd arall o fynd i'r afael â'r materion a glustnodir. Atebodd y swyddogion gan mai dogfen oedd hon ar gyfer y tri Awdurdod yng Nghymru na fyddai un cynllun gweithredu yn ymarferol, ond y byddai'r camau gweithredu yn cael eu cymryd drwy'r cynlluniau sy'n bodoli eisoes, megis y Cynllun Corfforaethol. Ychwanegodd y byddai'r ddogfen yn cael ei chyhoeddi ar wefan yr Awdurdod ac yn cael ei rhannu â sefydliadau sy'n bartneriaid.

Dywedodd yr Aelodau bod y broblem o dai fforddiadwy yn dwysau oherwydd y gyfradd uchel o ail gartrefi yn y sir, a gofynnwyd a oedd unrhyw gynigion yn y polisïau cynllunio fyddai'n mynd i'r afael â hyn. Atebodd y Cyfarwyddwr Cynllunio a Chyfarwyddyd y Parc nad oedd unrhyw reolaeth gan yr Awdurdodau ar hyn o bryd dros gael gwared ar y stoc bresennol o dai, ac nad oedd yn ymwybodol o unrhyw newidiadau yn yr arfaeth i'r sefyllfa hon. Gobaith yr Aelodau oedd y byddai Llywodraeth Cymru yn edrych ar hyn a materion eraill oedd yn cynyddu anghydraddoldeb ar draws Cymru.

**PENDERFYNWYD** mabwysiadu'r ddogfen 'Parciau Cenedlaethol Cymru: Tirweddau i Bawb' a chymeradwyo bod y ddogfen y cael ei hadolygu yn ystod gwanwyn 2021.

**10. Pwyllgor Safonau – Ail-benodi Aelod Annibynnol**

Atgoffwyd yr Aelodau bod y Pwyllgor Safonau yn cynnwys saith Aelod – tri Aelod o'r Awdurdod a phedwar Aelod Annibynnol. Roedd tymor swydd un o'r Aelodau Annibynnol, sef Mrs Victoria Tomlinson, yn dod i ben fis Medi. Fodd bynnag, roedd Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Cymru) (Diwygio) yn caniatau ail-benodi Aelod Annibynnol am un tymor dilynol arall o bedair blynedd heb yr angen i hysbysebu swydd wag.

**PENDERFYNWYD** ail-benodi Mrs Victoria Tomlinson yn Aelod Annibynnol o'r Pwyllgor Safonau am gyfnod o bedair blynedd tan 22 Medi 2024.

**11. Cymeradwyo Grantiau yn unol ag Adran 76 o'r Safonau Ariannol**

Dywedwyd bod Adran 76 o'r Safonau Ariannol (2016) yn ei gwneud yn ofynnol bod talu 'swm Grant a Nawdd o dan unrhyw un cytundeb dros £10,000' angen cael cymeradwyaeth yr Awdurdod Parc Cenedlaethol. Gofynnwyd felly am gymeradwyaeth i dalu hyd at rhyw £75,000 i Gyngor Sir Penfro fel cyfraniad tuag at Bartneriaeth Lonydd Glas Sir Benfro. Dosbarthwyd manylion y taliad.

Holodd yr Aelodau am niferoedd y rhai sy'n defnyddio'r gwasanaethau bws yr arfordir a Pharcio a Theithio, ynghyd â chyfraniadau eraill gan drydydd parti i'r Bartneriaeth, a chytunodd y Rheolwr Cyllid i gyflwyno'r wybodaeth hon i'r Aelodau.

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo talu swm hyd at £75,000 i Gyngor Sir Penfro fel cyfraniad tuag at y Bartneriaeth Lonydd Glas Sir Benfro.

**12. Aelodaeth o Bwyllgorau a Chyrff Allanol.**

Atgoffwyd yr Aelodau y dywedwyd yn y Cyfarfod Blynyddol Cyffredinol ar 3 Mehefin 2020 y byddai aelodaeth o'r Pwyllgor Ymchwilio a Disgyblu, y Pwyllgor Cwynion a'r Pwyllgor Apeliadau yn cael ei gadarnhau unwaith y byddai Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion yr Awdurdod a Phwyllgorau perthnasol eraill wedi'u penodi. Roedd hyn bellach wedi'i wneud, ac roedd awgrymiadau o gyfansoddiad y Pwyllgorau wedi'u nodi yn yr adroddiad.

Nodwyd yn ogystal bod y Cynghorydd M James wedi'i phenodi yn y Cyfarfod Blynyddol Cyffredinol i gynrychioli'r Awdurdod ar Weithgor Agregau Rhanbarthol De Orllewin Cymru, ond nad oedd Aelod dirprwyol wedi'i benodi.

**PENDERFYNWYD**:

a) Cadarnhau aelodaeth o'r Pwyllgor Ymchwilio a Disgyblu, y Pwyllgor Cwynion a'r Pwyllgor Apeliadau fel y nodwyd yn yr adroddiad; a

b) Phenodi Dr M Havard yn Aelod dirprwyol i gynrychioli'r Awdurdod ar Weithgor Agregau Rhanbarthol De Orllewin Cymru.

**13. Addasu dibenion y Gronfa Datblygu Cynaliadwy a'i Chyflawni**
Dywedwyd wrth yr Aelodau mai o ganlyniad i'r Awdurdod yn cymeradwyo'r Cynllun Gweithredu ar yr Argyfwng Newid Hinsawdd fis Mehefin, oedd yn argymell blaenoriaethu arian SDF i brosiectau arloesol oedd yn ymateb i'r argyfwng newid yn yr hinsawdd, ynghyd â grant o £50,000 ychwanegol oddi wrth gynllun Llywodraeth Cymru 'Tirweddau Cynaliadwy Lleoedd Cynaliadwy' ar gyfer prosiectau cyfalaf datgarboneiddio, cynhaliwyd gweithdy i Aelodau'r Pwyllgor Cronfa Datblygu Cynaliadwy i adolygu'r Gronfa. Yn ogystal ag ailffocysu ar gefnogi prosiectau sy'n cyflawni ymateb yr Awdurdod i'r argyfwng hinsawdd, ystyriwyd materion megis gwella effeithlonrwydd, effeithiolrwydd costau, tryloywder a chanlyniadau mesuradwy y grant.

Roedd yr Aelodau wedi trafod sawl opsiwn ac wedi argymell nifer o newidiadau i gyflawni'r ariannu:

a) Newid o'r 'galw agored' generig, sef y mecanwaith presennol o ariannu, i ddull mwy uniongyrchol o ariannu wedi'i dargedu, gydag ymgeiswyr yn gwneud cais am un o dri prosiect penodol o leihau carbon tra'n cadw pedwerydd opsiwn o allu gwneud cais am arian ar gyfer prosiect mwy unigol;
b) Proses symlach o ymgeisio a gweinyddu'r gronfa;
c) Ffocysu arian y gronfa ar gefnogi 'sefydliadau nid er elw';
d) Arian Cyfatebol yn ofynnol;
e) Dod â'r Grant Bach Gwyrdd i ben ar ddiwedd y flwyddyn ariannol gyfredol;
f) Gostwng nifer yr Aelodau ar y Pwyllgor o 12 Aelod (6 APC a 6 Ymgynghorol) i 6 Aelod APC ac 1 neu 2 Aelod Ymgynghorol.

Roedd yr Aelodau yn croesawu'r argymhellion gan gytuno y byddent yn gwneud y defnydd gorau o'r arian sydd ar gael ac yn amlygu pwysigrwydd y mesurau lleihau carbon. Gofynnwyd cwestiwn ynghylch pa mor ymarferol yw gweithredu'r gronfa oherwydd effaith y pandemig COVID-19. Atebodd y swyddogion eu bod o'r farn y byddai'r newidiadau a gynigir yn caniatáu i'r arian gael ei wario yn y flwyddyn ariannol gyfredol.

**PENDERFYNWYD** cadarnhau'r newidiadau i'r Gronfa Datblygu Cynaliadwy a argymhellwyd gan y Pwyllgor Cronfa Datblygu Cynaliadwy a amlinellwyd yn yr adroddiad, i'w gweithredu ar unwaith.

**14. Ymddiriedolaeth Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro – Ein Blwyddyn Gyntaf 2019-2020**
Dywedwyd bod yr Ymddiriedolaeth, fel rhan o'r Memorandwm Dealltwriaeth rhwng Ymddiriedolaeth Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

a'r Awdurdod Parc Cenedlaethol, wedi ymrwymo i rannu diweddariad gyda'r Awdurdod ar y camau ymlaen a gymerwyd, a hynny yn flynyddol. Lansiwyd yr Ymddiriedolaeth i'r cyhoedd fis Ebrill 2019, ac ynghlwm wrth yr adroddiad oedd ei Adroddiad ar yr Effaith Blynyddol 2019-20 oedd yn amlinellu manylion y prosiectau yr oedd yr Ymddiriedolaeth wedi'u cefnogi gyda'r arian y llwyddwyd i'w godi hyd yn hyn. Swyddogion y Parc Cenedlaethol oedd yn cyflwyno prosiectau gerbron, ac roedd yr Ymddiriedolaeth wedi cytuno ar bortffolio o gyfleoedd ariannu y gellid eu cydweddu â chyllidwyr posibl.

Roedd Cadeirydd yr Ymddiriedolwyr, Elsa Davies, yn bresennol yn y cyfarfod, a diolchodd i Aelodau'r Awdurdod ac i'r Prif Weithredwr am wneud y penderfyniad i sefydlu'r Ymddiriedolaeth. Ei gobaith oedd y byddai effaith yr Ymddiriedolaeth yn lledaenu gyda threigl y blynyddoedd er mwyn cefnogi prosiectau gwerth chweil yn y Parc Cenedlaethol.

Gan ddiolch i'r swyddog am ei chyflwyniad, roedd yr Aelodau o'r farn bod yr Ymddiriedolwyr wedi cael blwyddyn gyntaf lwyddiannus, a llongyfarchwyd hwy ar eu llwyddiant. Barnent bod yr Adroddiad Effaith wedi'i gyflwyno'n dda ac y byddai'n ddefnyddiol wrth geisio cael cyllidwyr newydd yn y dyfodol.

**NODWYD.**

---

**Cadarnhawyd y cofnodion hyn cyn belled ag y cynhwysir y newidiadau sy'n dilyn yng nghyfarfod yr Awdurdod Parc Cenedlaethol a gynhaliwyd ar 30 Medi 2020:**

O ran Cofnod 5 – Cyhoeddiadau'r Cadeirydd, dywedodd y Cadeirydd ei fod wedi mynychu nifer o gyfarfodydd ar ran Parciau Cenedlaethol Cymru, fel eu Cadeirydd. Llongyfarchodd yr Aelodau ef ar gael ei benodi yn Gadeirydd, a dymunent i'r llongyfarchiadau gael ei gofnodi. Hefyd o ran Cofnod 14, Ymddiriedolaeth Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro, roedd y paragraff olaf yn llongyfarch yr Ymddiriedolwyr ar eu llwyddiant. Gofynnwyd am i waith y swyddogion hefyd gael ei amlygu yn hyn, ac awgrymwyd felly bod y gair "Ymddiriedolwyr" yn cael ei ddisodli gan "yr Ymddiriedolaeth".